# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 10 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Cyflwyno Amrywiadau Ariannol Mewn Ardaloedd yng Nghymru

**C7 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddweud beth yw'r sefyllfa diweddaraf mewn perthynas â'i ymdrechion i gyflawni'r ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth i gyflwyno amrywiadau ariannol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru? (OAQ14803)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Caiff fy adroddiad llawn ar y mater hwn ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd y prynhawn yma.

### Denu Mewnfuddsoddiad i Gymru

**C8 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ynghylch denu mewnfuddsoddiad i Gymru? (OAQ14810)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cyfarfod â Patricia Hewitt i drafod mewnfuddsoddiad yn benodol. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu yn rheolaidd â'u cydswyddogion yn yr Adran Masnach a Diwydiant i drafod prosiectau buddsoddiad penodol, a'r rhan y mae Invest.UK yn ei chwarae wrth gynorthwyo mewnfuddsoddiad yng Nghymru. Cynrychiolir Cymru hefyd ar y Pwyllgor Hyrwyddo Tramor.

### Denu Prosiectau Ymchwil a Datblygu Mawr i Gymru

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd a wnaed i ddenu prosiectau ymchwil a datblygu mawr i Gymru? (OAQ14814)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn 'Cymru'n Ennill' mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi disgrifio ei gynlluniau i ysgogi mwy o swyddi ymchwil a datblygu. Yr ydym yn adeiladu ar lwyddiannau fel y rhaglen SmartWales, cydsyniad *Technium* a'r cynllun technoleg rhanbarthol Cymru. Byddwn hefyd yn agor canolfan masnacheiddio technoleg newydd.

### Adroddiad Cydlyniant

**C10 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei ymateb i broses ymgynghori yr Undeb Ewropeaidd ar yr adroddiad cydlyniant? (OAQ14800)

**Prif Weinidog Cymru:** Ysgrifennais at y Comisiynydd Polisi Rhanbarthol ar 17 Rhagfyr ynghylch y materion a godwyd yn ail adroddiad y comisiwn ar gydlynu economaidd a chymdeithasol. Yr wyf yn ffyddiog y caiff y materion a godais eu cefnogi'n eang drwy Gymru, er mai sylwadau cychwynnol a geid yn fy ymateb y bu i chi ac aelodau eraill y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol weld cyn ei anfon.

## Adfywio Cymoedd y De

**C11 Geraint Davies:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal cyfarfod gyda darpar gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru i drafod adfywio cymoedd y De? (OAQ14833)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi cwrdd â'r darpar gadeirydd ac wedi trafod strategaethau'r asiantaeth yn y dyfodol ag ef. Trafodasom ystod o faterion. Yr wyf yn disgwyl i'r asiantaeth barhau gyda'i gwaith o adfywio cymoedd y De, ynghŷd â'i blaenoriaethau strategol eraill.

## Prosiectau Amcan 1 yn Nyffryn Clwyd

**C12 Ann Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd a wnaed gyda phrosiectau Amcan 1 yn Nyffryn Clwyd yn ystod y misoedd diwethaf? (OAQ14835)

**Prif Weinidog Cymru:** Ymhellach i'r ateb a roddais ar 3 Mai (OAQ11113), cymeradwywyd tri phrosiect cronfa datblygiad rhanbarthol Ewropeaidd, gyda gwerth grant o £700,000. Cymeradwywyd 12 prosiect ERDF hyd yn hyn, gyda chyfanswm llawn o £12.1 miliwn a gwerth grant o £4.4 miliwn.

Yn ychwanegol i gymeradwyaeth prosiectau lleol, cymeradwywyd nifer o brosiectau ar gyfer gogledd-orllewin Cymru gyfan, a fydd yn rhoi budd i ardal Dyffryn Clwyd hefyd.

## Prosiectau Technium

**C13 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygiad prosiectau Technium yn y dyfodol? (OAQ14819)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais i Alun Cairns ar 25 Hydref 2001 (OAQ13090) a 5 Tachwedd 2001 (WAQ13826).

## Effaith Colli Swyddi yn Consignia

**C14 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant mewn perthynas ag effaith colli 30,000 o swyddi yn Consignia? (OAQ14809)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cysylltu â'r Adran Masnach a Diwydiant hyd yn hyn. Mae Consignia yn parhau i lunio cynlluniau ailstrwythuro manwl ac y mae'n rhy gynnar dweud o ba le y bwriedir colli swyddi. Fodd bynnag, cynhaliodd fy swyddogion drafodaethau gydag uwch-reolwyr Consignia yng Nghymru a byddant yn cwrdd â'r Adran Masnach a Diwydiant yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

## Prosiectau Amcan 1 yng Ngogledd Cymru

**C15 Ann Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd a wnaed gyda phrosiectau Amcan 1 yng ngogledd Cymru yn ystod y misoedd diwethaf? (OAQ14836)

**Prif Weinidog Cymru:** Ymhellach i'r ateb a roddais ar 3 Mai (OAQ11112), cymeradwywyd saith prosiect cronfa datblygiad rhanbarthol Ewropeaidd sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru, gyda gwerth grant o dros £2.5 miliwn. Cymeradwywyd 30 prosiect ERDF hyd yn hyn, sy'n cynrychioli gwerth grant o £17 miliwn.

Yn ychwanegol, caiff nifer o brosiectau a gymeradwywyd eu datblygu ledled rhanbarth Amcan 1, a fydd yn rhoi budd i ardal gogledd-orllewin Cymru hefyd.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Credydau Menter Cyllid Preifat Ychwanegol

**C9 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ystyried sicrhau bod rhagor o gredydau menter cyllid preifat ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ14785) [R]

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Byddaf yn trafod y mater o rowndiau cynnig ar gyfer credydau PFI llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol agos. Byddaf hefyd yn trafod â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sut y byddwn yn datblygu y moddau i adnabod a datblygu partneriaethau cyhoeddus preifat yn y gwasanaeth iechyd o fewn fframwaith strategol.

### Paratoi Cyllideb y Cynulliad

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae'n eu cynnal â Llywodraeth San Steffan wrth baratoi cyllideb y Cynulliad? (OAQ14786)

**Edwina Hart:** Mater i'r Cynulliad yn unig yw paratoi cyllideb y Cynulliad ac nid wyf yn trafod y mater â Llywodraeth San Steffan.

### Amcangyfrif o Gyfanswm yr Hyblygrwydd Diwedd-blwyddyn

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog roi amcangyfrif o gyfanswm yr hyblygrwydd diwedd-blwyddyn a gaiff ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf? (OAQ14795)

**Edwina Hart:** Mae'n rhy gynnar rhoi amcangyfrif cywir o'r fath, ond yr wyf yn cwrdd â fy nghyd-Aelodau Cabinet ar hyn o bryd i drafod gwariant blwyddyn lawn, ynglŷn â'r gweithgareddau y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt, yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi bod gostwng tanwario ar draws cyllidebau'r Cynulliad yn un o'm prif amcanion.

### Adolygu Gofynion Cyllid Cyfalaf y Sector Cyhoeddus

**C12 Janet Ryder:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu gofynion cyllid cyfalaf y sector cyhoeddus? (OAQ14788)

**Edwina Hart:** Mae ariannu prosiectau cyfalaf yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o hyd yn destun craffu gofalus ac yr wyf yn adolygu'r mater yn barhaus.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ14783) yn ôl.*

### Gwerth Cyfalaf a Chost Refeniw Prosiectau Menter Cyllid Preifat

**C14 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion gwerth cyfalaf a chost refeniw'r prosiectau menter cyllid preifat sydd ar waith yng Nghymru? (OAQ14792)

**Edwina Hart:** Ysgrifennaf atoch gyda'r wybodaeth sydd gennym ar brosiectau PFI a gosodaf gopi yn y Llyfrgell.

### Cynlluniau Ariannol Wrth Gefn

**C15 Nick Bourne:** Pa gynlluniau ariannol wrth gefn sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael ag unrhyw lifogydd annisgwyl fel ag a gafwyd y llynedd? (OAQ14794)

**Edwina Hart:** Mae gan y Cynulliad bŵer i ddarparu cymorth ariannol i helpu awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau'r heddlu, weithredu ar unwaith i ymdopi ag effeithiau argyfyngau neu drychinebau. Pe gweithredid cynllun Bellwin, byddwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol yn y ffordd arferol.